Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 51 Pris i aelodau: £5.00 y flwyddyn Pris i'r cyhoedd: £1.50 y rhifyn Gaeaf 1993

## TORRI TIR NEWYDD

**Wele rifyn 51 o *Y Casglwr* yn ddiogel yn eich dwylo o'r diwedd. Wedi i bob math o drafferthion, gan gynnwys erthyglau heb ddod i law, erthyglau ar goll ac addewidion ddim yn troi yn erthyglau, rwystro rhifyn rhag ymddangos ar drothwy'r Nadolig yn ôl yr arfer dyma rifyn gaeaf 1993/94 yn ymddangos ar adeg y rhifyn gwanwyn arferol. Rhag ofn eich bod yn dechrau meddwl eich bod wedi cael bargen wael — cael dim ond dau rifyn am eich £5 yn 1993 — prysuraf i egluro mai perthyn i danysgrifiad 1993 y mae'r rhifyn hwn. Ar dudalen 2 fe welwch hysbyseb sy'n dangos fod y Gymdeithas yn torri tir newydd eleni trwy gynnal Ysgol Undydd a Chyfarfod Blynyddol yn Aberystwyth ar Fai 14eg. Bydd y rhifyn nesaf o *Y Casglwr* yn ymddangos yr adeg hynny a bydd y rhifyn nesaf wedyn yn ymddangos ar gyfer Prifwyl Dyffryn Nedd. (Gol.)**

## D. G. LLOYD HUGHES yn codi cwr y llen ar

# HANES HYNOD SARAH JACOB

## Y FERCH A LWGWYD I FARWOLAETH

HOLAIS yn rhifyn Nadolig 1992 o'r *Casglwr* am gopi o gyfrol arbennig — *Atgofion am Ddeugain Mlynedd o'm Gweinidogaeth* (Caerfyrddin, 1894) o waith y Parch Evan Jones. Ar wahân i air gan aelod o Gymdeithas Bob Owen yn dweud yr hoffai gael gwell copi na'r un oedd ganddo ni chefais ymateb o unman. Trwy holi dysgais nad oedd gan yr un o lyfrgelloedd sir Dyfed gopi o'r llyfr ac yr wyf yn ddwfn fy nyled i barchus olygydd y cylchgrawn hwn am ddarganfod un ym mherfeddion y Llyfrgell Genedlaethol nad oedd yn gynwysiedig yn y mynegeion. Ni fûm ar drywydd eiddo'r Llyfrgell Brydeinig ond mae'n ymddangos bod y gyfrol erbyn hyn yn brin iawn.

'Roeddwn yn awyddus i gael fy nwylo arni am resymau neilltuol. Gwyddwn mai Evan Jones oedd ficer plwyf Llanfihangel-ar-Arth, yng ngogledd yr hen sir Gaer, o 1860 hyd 1875, ac yr oedd gobaith gennyf y byddai'r gyfrol yn bwrw goleuni ar rai o ddigwyddiadau arbennig, fel agor yr Ysgol Genedlaethol a dyfodiad y rheilffordd. Ond yn fwy na dim arall hoffwn weld beth oedd ganddo i'w ddweud am drychineb Sarah Jacob, y ferch ddeuddeng mlwydd oed a lwgodd i farwolaeth yn 1869 mewn amgylchiadau hynod o drist.

Wrth feddwl am ei gyfraniad i'r hanes hwnnw siom fawr oedd canfod nad oedd ond un paragraff am Sarah Jacob mewn pennod yn cynnwys deunaw am ei gyfnod yn Llanfihangel-ar-Arth. Mae'n werth dyfynu'r paragraff hwnnw fel y mae yn y gyfrol:

*Yn y flwyddyn 1869 cymmerodd dygwyddiad hynod a galarus iawn le yn y plwyf, yr hwn a achosodd i mi fawr flinder. Daethym i gyffyrddiad â'r dygwyddiad hwnnw yn y cyflawniad o'm dyledswyddau fel gweinidog y plwyf; ond gan mai nid dymunol yw ailagor clwyfau a dolurio teimladau neb, nid ymhelaethaf arno ym mhen cyhŷd o amser.'*

Er nad yw'n ei henwi mae'n glir i unrhyw un a ŵyr rywfaint o hanes y plwyf mai cyfeirio at farwolaeth y ferch mae'r geiriau, ond yr oedd yn debyg o fod yn agosach o lawer at 1894, pan gyhoeddwyd yr atgofion, nag 1869 pan roddwyd pin ar bapur gan Evan Jones. Oherwydd y rhan bwysig chwaraewyd ganddo

*(Parhad ar dudalen 3)*



*Llethr-neuadd, cartref Sarah Jacob a'i theulu.*